## Beth yw’r Bwrdd a beth ydym yn ei wneud?

Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd sy’n penderfynu faint y mae Aelodau o’r Senedd yn cael ei dalu.

Mae'r Bwrdd hefyd yn pennu’r costau y caiff yr Aelodau eu hawlio ar gyfer busnes a staffio; mae ar yr Aelodau angen adnoddau i wneud eu gwaith, a hynny yn eu hetholaethau ac yn y Senedd. Mae hyn yn cynnwys cyflogi staff, cael swyddfeydd yn y cymunedau y maent yn eu cynrychioli, ac ar gyfer teithio a llety dros nos pan fydd angen iddynt fod yn y Senedd ym Mae Caerdydd. Rydym yn nodi ein penderfyniadau mewn dogfen o’r enw y **Penderfyniad**.

Mae'r Bwrdd yn annibynnol; mae hyn yn golygu ein bod ar wahân i’r Senedd a Llywodraeth Cymru, gan sicrhau bod ein penderfyniadau ar gyflog Aelodau a Gweinidogion yn ddiduedd.

**Mae’r Bwrdd yn annibynnol ar y Senedd a Llywodraeth Cymru – nid yw Aelodau a Gweinidogion yn penderfynu ar eu cyflog eu hunain**

Sefydlwyd y Bwrdd gan gyfraith newydd a basiwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, fel y’i gelwid ar y pryd, yn 2010; cyn hynny penderfynwyd cyflog a chymorth ariannol yr Aelodau gan y Cynulliad.

Rydym o’r farn bod Aelodau o’r Senedd â rhan hanfodol yn ein democratiaeth ac y dylai eu cyflog adlewyrchu’r rôl honno a’u cyfrifoldebau.

Rydym wedi ymrwymo i hyrwyddo a chefnogi amrywiaeth a chydraddoldeb. Ein nod yw lleihau’r rhwystrau fel y gall y Senedd adlewyrchu cymdeithas, lle y gall unrhyw un, ni waeth beth yw ei gefndir neu ei amgylchiadau, ystyried dod yn Aelod o’r Senedd.

**Mae penderfyniadau’r Bwrdd yn ystyried gwerth am arian a chânt eu gosod yng nghyd-destun enillion Cymru ac amgylchiadau ariannol ehangach Cymru.**

Wrth wneud penderfyniadau, rydym yn dilyn nifer o amcanion ac egwyddorion craidd, i sicrhau y caiff yr Aelodau eu talu’n ddigonol ac y cânt hawlio digon o adnoddau i gefnogi eu gwaith yn yr etholaeth ac yn y Senedd. Rydym hefyd yn sicrhau bod ein penderfyniadau’n cynrychioli gwerth am arian a’u bod yn briodol yng nghyd-destun enillion Cymru ac amgylchiadau ariannol ehangach Cymru.

Caiff ein penderfyniadau eu llywio gan y data economaidd diweddaraf, meincnodau cyflogau, gan edrych ar yr hyn y mae ar yr Aelodau ei angen a sut y maent wedi defnyddio adnoddau yn y gorffennol. Rydym hefyd yn gwneud gwaith ymchwil, yn siarad â rhanddeiliaid ac yn ymgynghori â'r cyhoedd cyn gwneud penderfyniadau.

Rydym yn cyhoeddi'r gwaith ymchwil a'r dystiolaeth rydym wedi'i hystyried ochr yn ochr â'n cynigion polisi. Rydym hefyd yn cyhoeddi adroddiad blynyddol, sy'n cynnwys ffioedd a chostau'r Bwrdd.

Caiff holl hawliadau'r Aelodau sydd wedi'u had-dalu ar gyfer costau busnes a staffio, gan gynnwys teithio a llety, eu cyhoeddi ar-lein ar **https://lwfansau.senedd.cymru/**